

The logo consists of a red trapezoidal shape. Inside, the text 'WcVA' is written in white, bold, sans-serif font. A thin white horizontal line is positioned below 'WcVA', and the text 'CgGC' is written in white, bold, sans-serif font below the line.

**WcVA**  
**CgGC**

**Dyfarniadau Cymru ac Affrica Cylch 1 2022-23**

Mudiad	Disgrifiad o'r Prosiect	Cais am grant
APT for Social Development	Costau datblygu dau weithdy Technoleg ar bapur Priodol yng nghefn gwlad Kenya sy'n adeiladu dyfeisiau cymorth ystum pwrpasol o ddeunyddiau rhad. Bydd therapyddion yn cyflwyno hyfforddiant mewn rheoli ystum plant ag anableddau difrifol a bydd dyfeisiau priodol yn cael eu hadeiladu ar gyfer therapyddion lleol a staff gweithdai.	£14,232.00
Interburns	Bydd y prosiect yn cyflwyno 5 diwrnod o hyfforddiant ymarferol i nyrsys llosgiadau yn Nhanzania a'r ardal er mwyn gwella ansawdd y gwaith o nyrsio llosgiadau mewn ysbytai eilaidd a thrydyddol. Bydd yn datblygu gallu nyrsys penodol o'r ardal i arwain a lledaenu eu sgiliau'n ehangach.	£25,000.00
Prifysgol Aberystwyth	Adeiladu capasiti hanfodol i alluogi rhaglen diddymu malaria Zanzibar i ymwreiddio dronau trawsnewidiol a thechnolegau geo-fodol.	£16,125.10
Niokolo Network	Nid oes gan lawer o blant yn Senegal dystysgrif geni sy'n eu hatal rhag mynd i'r ysgol. Bydd y prosiect hwn yn datblygu cynllun peilot cofrestru genedigaeth cynharach yn Senegal ac yn cryfhau	£9,980.00

	strategaethau cyfathrebu yn Senegal ac yng Nghymru er mwyn sicrhau bod effeithiau dysgu yn cael eu cynnal a sicrhau gwell dinasyddiaeth weithgar fyd-eang.	
The Moses Project Charity	Cyflwyno ymateb disyfyd i her COVID19: mae hyn wedi achosi dirywiad economaidd sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol gymunedol wledig yn Endonyiosidai Kenya. Ymyraethau tymor byr i fynd i'r afael â'r prinder dŵr a hwyluso addysg iechyd/hylendid - i gyd er budd hirdymor - a chynyddu'r nifer sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â mwy nag un o'r themâu rhyng-gysylltiedig!	£9,713.00
Prifysgol Caerdydd – Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg	Bydd tîm o Brifysgol Caerdydd yn cydweithio â thîm o Brifysgol Cape Coast (UCC) Ghana i hyfforddi a pharatoi optometryddion mewn glawcoma a threialu datrysiad rhad, syml a chynaliadwy i ganfod y clefyd yn gynnar (cyn mynd yn ddall) mewn cymunedau gwledig a thlawd.	£14,094.00
ChallengeAid	Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i osod gliniaduron, uwch-daflunwyr a sgriniau mewn 6 canolfan yn Nairobi er mwyn cynnal	£19,200.00

	<p>gwersi Zoom a fydd yn cael eu cyflwyno gan athrawon gwirfoddol yma yng Nghymru. Mae'r gwersi i fyfyrwyr uchelgeisiol yn Nairobi a'r gwersi hyfforddiant mewn swydd i'r athrawon sy'n gweithio yn ein hysgolion anffurfiol.</p>	
<p>Chomuzangari Women's Cooperative</p>	<p>Byddwn yn cynorthwyo 60 o fenywod i gael bywoliaeth gynaliadwy ac yn mynd i'r afael â phroblemau newid hinsawdd drwy ehangu ein gardd faeth bresennol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy baratoi tir, codi tai gwydr a thai geifr a thrwy feithrin gallu drwy weithdai a hyfforddiant.</p>	<p>£25,000.00</p>
<p>Anabledd yng Nghymru ac Affrica</p>	<p>Mae "Rhannwch ein Stori" yn hwyluso pobl fyddar ac anabl o Gymru ac Affrica i drafod eu profiadau, syniadau a'u harbenigedd wrth fynd ar ôl datblygiadau sy'n gynhwysol i bobl anabl. Bydd yn grymuso pobl fyddar ac anabl leol drwy roi rhagor o wybodaeth am bosibiliadau a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol drwy rannu'r straeon yn gyhoeddus.</p>	<p>£15,484.00</p>